

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Brynheulog, Ysbyty Sir  
Drefaldwyn, Bwrdd Iechyd Addysgu  
Powys

Dyddiad yr arolygiad: 21 a 22 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83577-632-2

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	11
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	16
4. Y camau nesaf .....	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	21
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o ward Brynheulog, Ysbyty Sir Drefaldwyn, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 21 a 22 Tachwedd 2023.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda. Dywedodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r arwyddion i'r ward
- Gosod drws awtomatig i'r ward
- Y trefniadau ar gyfer storio cyfarpar.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol
- Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi
- Darpariaeth i'r cleifion gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith
- Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal ar ward Brynheulog yn ddiogel ac yn effeithiol ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo.

Roedd y ward yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Rhoi system ar waith i atgoffa'r staff pan fydd angen gofalu am friwiau pwyso a rheoli achosion o ymataliaeth
- Sicrhau bod y cofnodion gwerthuso yn adlewyrchu'r gofal a roddir
- Sicrhau bod ail nyrs yn llofnodi i gadarnhau bod gwiriadau wedi cael eu cynnal ar ddyfeisiau chwistrellu
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Sicrhau y caiff gweithwyr cymdeithasol eu cynnwys fel rhan o'r tîm amlddisgyblaethol
- Sicrhau y caiff Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu hadolygu cyn i'r awdurdodiad ar eu cyfer ddod i ben

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hwnnw
- Cynlluniau gofal a dogfennaeth ategol sy'n hawdd eu defnyddio
- Darpariaeth gofal a dogfennaeth ategol un-i-un.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward, ac roedd sylwadau'r staff am y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys ethos o welliant parhaus, ac ymrwymiad i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymorth a threfniadau goruchwyllo da gan reolwr y ward
- Prosesau archwilio ac adrodd da
- Rheoli pryderon a digwyddiadau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion am y gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan y staff ar ward Brynheulog yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r staff yn mynd gam ymhellach i sicrhau y caiff cleifion eu hysbysu am newidiadau gartref ac i roi cymorth iddynt gyfathrebu ag anwyliaid - gofal empathetig ac agwedd gadarnhaol.”*

*“Bob amser yn lân ac mae'r staff yn sylwgar iawn.”*

*“Mae angen mwy o leoedd fel Ysbyty'r Drenwydd.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ward, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

##### Gofal urddasol a pharchus

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y staff. Roedd y cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth wrth sôn am y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.



## **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwelsom fod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu anghenion a dymuniadau cleifion unigol.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Gwelsom fod y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt. Gwelwyd bod y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy ddulliau arsylwi cyffredinol. Roedd hyn yn eu galluogi i roi sylw i'r cleifion mewn ffordd amserol.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Cadarnhaodd y cleifion eu bod wedi cael cynnig y dewis o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith, ac roedd nifer bach o'r staff yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion a'r perthnasau a oedd yn siarad Cymraeg sgwrsio â nhw yn eu mamiaith.

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu.

Dywedodd y cleifion wrthym fod aelodau o'r staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i'r cleifion a'u teuluoedd allu cwrdd yn breifat ac roeddent yn barod i hwyluso hyn drwy ddefnyddio ystafelloedd nad oeddent yn cael eu defnyddio ar y pryd.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) a phrosesau Galluedd Meddyliol ac roedd asesiadau yn cael eu cynnal fel y bo angen. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd asesiad un claf o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael ei adolygu o fewn y terfyn amser penodedig.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu hadolygu cyn i'r awdurdodiad ar eu cyfer ddod i ben.**

Roedd ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) yn cael eu cwblhau gan ymgynghori â'r claf neu'r cynrychiolydd teuluol a benodwyd ar ei gyfer.

Gwelsom fod trefniadau mynediad da ar y cyfan i bobl ag anghenion symudedd yn amgylchedd y ward. Fodd bynnag, gellid eu gwella ymhellach drwy ddarparu drysau awtomatig i'r ward.

Yn ogystal, dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella'r arwyddion i'r ward, gan fod y trefniant presennol braidd yn ddryslyd.

**Dylai'r bwrdd iechyd, fel rhan o waith adnewyddu yn y dyfodol, ystyried gosod drysau awtomatig er mwyn gwella mynediad i'r ward ac ystyried gwella'r arwyddion.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion, a gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar adeg derbyn ar gyfer briwiau pwysu a chwympiadau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nodwyd gennym ei bod yn anodd gweld pryd roedd angen troi cleifion. Nid oedd siartiau troi yn cael eu defnyddio ar y ward ac o ganlyniad, roedd yn rhaid i'r staff edrych ar yr asesiadau yn y ddogfennaeth nyrsio yn y ffeiliau gofal er mwyn gweld pryd y dylid troi cleifion. Yn ogystal, nid oedd nodiadau gwerthuso cleifion bob amser yn cael eu diweddarau i ddangos pryd roedd cleifion wedi cael eu troi.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer dogfennaeth rheoli briwiau pwysu er mwyn sicrhau y gall staff weld yn gyflym pryd y mae angen troi cleifion.**

**Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod y staff yn diweddarau'r nodiadau gwerthuso er mwyn dangos yn gywir pryd y cafodd cleifion eu troi.**

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Fodd bynnag, gwelsom fod lle storio yn broblem a bod cyfarpar yn cael ei storio mewn lleoedd amrywiol o amgylch y ward gan gynnwys mewn ystafell ymolchi nad oedd yn cael ei defnyddio.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le storio ar gael ar y ward.**

Ar y cyfan, roedd systemau cynnal a chadw da ar waith ac roedd gwaith atgyweirio yn cael ei gynnal mewn modd amserol. Fodd bynnag, gwelsom fannau lle roedd sgriwiau yn ymwithio allan lle roedd eitemau wedi cael eu tynnu oddi ar y waliau. Gallai hyn achosi anafiadau i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff pe byddent yn cwmpo yn eu herbyn drwy ddamwain, neu'n brwsio heibio iddynt.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff sgriwiau sy'n ymwithio allan o'r waliau ar y ward eu tynnu.**

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith ar y cyfan. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o lwch a gweoedd pryfed cop i'w gweld o amgylch y system camerâu diogelwch.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob rhan o'r ward ei chadw'n lân ac nad oes unrhyw lwch na gweoedd pryfed cop.**

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn manau strategol o amgylch y ward.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Rydym yn awgrymu y dylid arddangos canlyniadau archwiliadau o'r fath i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff canlyniadau archwiliadau eu harddangos ar y ward i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.**

### **Diogelu plant ac oedolion**

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dyweddwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol ar y ward ar adeg yr arolygiad.

### **Rheoli gwaed**

Dyweddwyd wrthym nad oedd trallwysiadau gwaed yn cael eu cynnal ar y ward a phe byddai angen trallwysiad gwaed ar glaf, y byddai'r claf hwnnw yn cael ei drosglwyddo i ysbyty arall i gael triniaeth.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar y ward a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

### **Rheoli Meddyginiaethau**

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y cwpwrdd ar gyfer storio cyffuriau a reolir yn cynnwys meddyginiaethau a oedd wedi'u rhagnodi i gleifion nad oeddent bellach ar y ward, ac roedd y dyddiad defnyddio ar rai o'r meddyginiaethau hynny wedi mynd heibio.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau nad oes eu hangen bellach eu gwaredu mewn modd amserol.**

Nodwyd gennym hefyd nad oedd ocsigen bob amser yn cael ei ragnodi'n ffurfiol cyn ei roi i gleifion.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ocsigen ei ragnodi cyn ei roi i gleifion.**

## **Effeithiol**

### **Gofal Effeithiol**

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a gweithwyr amlddisgyblaethol proffesiynol eraill. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd gweithiwr cymdeithasol bob amser yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a bod hyn yn achosi problemau, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu ag uwch-reolwyr yn yr awdurdod lleol er mwyn ceisio sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.**

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) a llwybr gofal sepsis wedi'u hadlewyrchu yn y broses asesu a chynllunio gofal. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw newidiadau neu benderfyniadau uwchgyfeirio yn deillio o asesiadau NEWS neu asesiadau sepsis bob amser yn cael eu hadlewyrchu yn nodiadau gwerthuso gofal y cleifion.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i newidiadau mewn asesiadau NEWS neu asesiadau sepsis yn gywir yn nodiadau gwerthuso gofal y cleifion.**

Gwelsom fod poen yn cael ei hasesu a'i rheoli'n briodol a bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi a'u rhoi mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid oedd nodiadau

gwerthuso gofal y cleifion bob amser yn adlewyrchu hyn ac nid oedd unrhyw gofnod o effeithiolrwydd y meddyginiaethau lleddfu poen a roddwyd.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn diweddarau nodiadau gwerthuso gofal y cleifion i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn yr asesiad neu'r trefniadau cynllunio gofal mewn perthynas â rheoli poen a'u bod hefyd yn cofnodi effeithiolrwydd unrhyw feddyginiaethau lleddfu poen a roddir.**

### **Maeth a hydradu**

Roedd y bwyd a'r diodydd a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb rithro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw enghreifftiau o'r staff yn annog y cleifion i olchi eu dwylo cyn prydau ac ar ôl prydau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn annog y cleifion i olchi eu dwylo cyn prydau ac ar ôl prydau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a gwelsom fod siartiau monitro yn cael eu defnyddio lle bo'u hangen, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael lefelau maeth a hylif priodol.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwygo yn dda.

### **Cofnodion cleifion**

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda iawn, gyda gwerthusiadau ysgrifenedig cynhwysfawr yn cael eu cwblhau gan y staff gofal ar ddiwedd pob shift a oedd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarparwyd.

Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar ffurf papur ac yn electronig. Gwnaethom awgrymu y dylid datblygu dogfen gyfarwyddyd i staff asiantaeth neu aelodau newydd o staff i'w helpu i ddefnyddio'r system rheoli cofnodion electronig.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y staff yn anelu at ddarparu gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am leoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Staff

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Dim ond dau ymateb a gafwyd. Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan y staff, ni allwn gynnwys unrhyw ganfyddiadau yn yr adroddiad hwn gan nad yw'r canlyniadau yn rhai pendant. Fodd bynnag, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn fodlon ar yr amgylchedd gwaith ar y cyfan, a chafwyd sylwadau cadarnhaol ganddynt am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwr y ward.

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r ward.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff. Nodwyd gennym fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Roedd y staff ar y ward yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r



gwasanaeth. Roedd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd yn dangos cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o ychydig dros 72%.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol.**

Roedd y cofnodion yn dangos bod 68% o'r staff wedi cael arfarniadau blynyddol ffurfiol wedi'u dogfennu ac roedd trefniadau ar waith i gynnal arfarniadau gweddill y staff yn y dyfodol agos iawn.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a oedd yn dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Roedd hysbysfwrdd profiad y claf ar y ward a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddwyieithog am Llais, Gweithio i Wella, Adborth ar Brofiadau o'r GIG a sut i gysylltu â thîm pryderon, ansawdd a diogelwch y bwrdd iechyd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda a bod rheolwr y ward yn eu cefnogi'n dda.

Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roedd gwybodaeth am y ddyletswydd honno ar fewnwyd y bwrdd iechyd. Roedd rheolwr y ward a dirprwy reolwyr y ward wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, nid oedd aelodau eraill o'r staff wedi cael unrhyw hyfforddiant o'r fath.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.**

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, roedd prosesau archwilio ac adrodd da ar waith er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth.

Roedd pryderon a digwyddiadau yn cael eu rheoli'n briodol ac roedd pwyntiau gweithredu a gwersi i'w dysgu yn cael eu nodi.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel fferyllwyr, ffisiotherapyddion a deietegwyr.

Dywedwyd wrthym fod y practis meddyg teulu lleol yn gefnogol iawn a bod meddyg teulu yn ymweld bob dydd.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Brynheulog

Dyddiad yr arolygiad: 21 a 22 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

Dyddiad:

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Brynheulog

Dyddiad yr arolygiad: 21 a 22 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nodwyd gennym nad oedd asesiad un claf o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael ei adolygu o fewn y terfyn amser penodedig.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu hadolygu cyn i'r awdurdodiad ar eu cyfer ddod i ben.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafodd adolygiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu hychwanegu at y bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r cleifion y mae angen cynnal adolygiad ar eu cyfer</li> <li>Caiff dyddiadau adolygiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu hychwanegu</li> </ul>	Rheolwr y Ward  Rheolwr y ward / Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau  Chwefror 2024  I'w rannu yn ystod y cyfarfod nesaf i arweinwyr wardiau  Diwedd Ionawr 2024

		<p>at daflen drosglwyddo'r ward - Caiff rheolwyr holl wardiau BIAP i gleifion mewnol eu hysbysu am yr arfer hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff rôl y nyrs gyswllt ar gyfer y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ei hailsefydlu.</li> </ul>		
<p><b>Yn ogystal, dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella'r arwyddion i'r ward, gan fod y trefniant presennol braidd yn ddryslyd.</b></p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd, fel rhan o unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol, ystyried gosod drysau awtomatig er mwyn gwella mynediad i'r ward ac ystyried gwella'r arwyddion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol i gysylltu â phennaeth yr adran ystadau i drafod trefniadau ar gyfer adolygu'r arwyddion.</li> <li>• Cafwyd dyfynbris - archebwyd arwyddion ac rydym yn aros iddynt gyrraedd.</li> <li>• Archwiliad o arwyddion yn ardaloedd wardiau eraill</li> </ul>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol/Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd yr arwyddion Ionawr 2024</p> <p>Mae'r adolygiad diogelwch yn mynd rhagddo</p>



		<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ledled ardal BIAP er mwyn gwella opsiynau diogelwch ar safleoedd. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys drysau awtomatig/ mynediad â chardiau llithro</li> </ul>		
Roedd yn anodd gweld pryd roedd angen troi cleifion. Nid oedd siartiau troi yn cael eu defnyddio ar y ward ac o ganlyniad, roedd yn rhaid i'r staff edrych ar yr asesiadau yn y ddogfennaeth nyrsio yn y ffeiliau gofal er mwyn gweld pryd y dylid troi cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer dogfennaeth rheoli briwiau pwyso er mwyn sicrhau y gall staff weld yn gyflym pryd y mae angen troi cleifion.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff byrddau gwyn eu gosod uwchben y gwelyau er mwyn monitro newidiadau lleoli ac anghenion ymataliaeth.</li> <li>Caiff byrddau eu harchebu a'u rhoi ar waith</li> </ul>	Rheolwr y ward	Chwefror 2024
<b>Nid oedd nodiadau gwerthuso cleifion bob amser yn cael eu diweddarau i ddangos pryd roedd cleifion wedi cael eu troi.</b>	Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd sicrhau bod y staff yn diweddarau'r nodiadau gwerthuso er mwyn dangos yn gywir pryd y cafodd cleifion eu troi.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r trefniadau gyda'r nyrs arwain ddigidol er mwyn gallu nodi'r amser yn gywir ar y bwndel croen - os penderfynir ei fod yn ymarferol, caiff ei rannu'n eang ag</li> </ul>	Rheolwr y ward	Chwefror 2024

		ardaloedd cleifion mewnol		
Roedd lle storio yn broblem ac roedd cyfarpar yn cael ei storio mewn lleoedd amrywiol o amgylch y ward gan gynnwys mewn ystafell ymolchi nad oedd yn cael ei defnyddio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le storio ar gael ar y ward.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnydd - Cynhaliodd Rheolwr y Ward a Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol adolygiad a chodwyd y mater yng nghyfarfod gweithredol y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a'r grŵp rheoli cyfalaf.</li> <li>Mae'n bosibl y gellir cael cyllid drwy gronfeydd elusennol i ad-drefnu'r ystafelloedd storio.</li> </ul>	Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol/ Rheolwr y Ward	Medi 2024
Roedd sgriwiau yn ymwthio allan lle roedd eitemau wedi cael eu tynnu oddi ar y waliau. Gallai hyn achosi anafiadau i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff pe byddent yn cwmpo yn eu herbyn drwy ddamwain, neu'n brwsio heibio iddynt.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff sgriwiau sy'n ymwthio allan o'r waliau ar y ward eu tynnu.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff y sgriwiau eu tynnu a chaiff unrhyw dyllau eu llenwi pan gaiff y ward ei haddurno</li> </ul>	Rheolwr y ward/ adran ystadau	Chwefror 2024

<p>Roedd llwch a gweoedd pryfed cop i'w gweld o amgylch y system camerâu diogelwch.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob rhan o'r ward ei chadw'n lân ac nad oes unrhyw lwch na gweoedd pryfed cop.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff y gweoedd pryfed cop eu gwaredu a chaiff yr amserlen glanhau ei hadolygu gyda'r goruchwylydd cyfleusterau.</li> <li>• Caiff y canfyddiadau eu rhannu ag arweinydd cyfleusterau'r bwrdd iechyd ehangach.</li> </ul>	<p>Rheolwr y ward/ Goruchwylydd cyfleusterau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd canlyniadau archwiliadau yn cael eu harddangos i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff eu gweld.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff canlyniadau archwiliadau eu harddangos ar y ward i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Buddsoddwyd mewn system archwilio electronig</li> <li>• Mae'r byrddau sy'n dangos cynnydd yn cael eu huwchraddio er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys tystiolaeth gyson o archwiliadau a pherfformiad mewn fformat symlach.</li> </ul>	<p>Rheolwr y ward/ Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol/ Pennaeth Nyrso</p>	<p>Ebrill 2024</p>
<p>Roedd y cwpwrdd ar gyfer storio cyffuriau a reolir yn cynnwys meddyginiaethau a oedd wedi'u rhagnodi i gleifion nad oeddent bellach ar y ward,</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau nad oes eu hangen bellach eu gwaredu mewn modd amserol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd trefniadau gwirio misol ar waith er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw feddyginiaethau eu</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward/ fferyllfa</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>ac roedd y dyddiad defnyddio ar rai o'r meddyginiaethau hynny wedi mynd heibio.</p>		<p>cadw ar y ward i gleifion sydd wedi cael eu rhyddhau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd y meddyginiaethau eu symud o'r ward</li> </ul>		
<p><b>Nid oedd ocsigen bob amser yn cael ei ragnodi'n ffurfiol cyn ei roi i gleifion.</b></p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ocsigen ei ragnodi cyn ei roi i gleifion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff ocsigen i bob claf y mae angen therapi ocsigen arno ei ragnodi ar siart cyffuriau.</li> <li>• Bydd y staff nyrsio yn sicrhau bod gan unrhyw un y mae angen ocsigen arno bresgripsiwn ar ei gyfer.</li> <li>• Bydd y fferyllfa yn archwilio cydymffurfiaeth o ran O2.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward/ technegydd y fferyllfa</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Dywedwyd wrthym nad oedd gweithiwr cymdeithasol bob amser yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a bod hyn yn achosi problemau, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu ag uwch-reolwyr yn yr awdurdod lleol er mwyn ceisio sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltwyd â'r awdurdod lleol i drafod sut y gellid gwella lefelau presenoldeb gweithwyr cymdeithasol yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward/ Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol/ AD</p>	<p>Chwefror 2024</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff lefelau presenoldeb parhaus eu monitro a chyflwynir adroddiadau arnynt drwy'r grŵp gweithredol.</li> </ul>		
<p><b>Nid oedd nodiadau gwerthuso gofal y cleifion bob amser yn adlewyrchu hyn ac nid oedd unrhyw gofnod o effeithiolrwydd y meddyginiaethau lleddfu poen a roddwyd.</b></p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn diweddarau nodiadau gwerthuso gofal y cleifion i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn yr asesiad neu'r trefniadau cynllunio gofal mewn perthynas â rheoli poen a'u bod hefyd yn cofnodi effeithiolrwydd unrhyw feddyginiaethau lleddfu poen a roddir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella'r ddogfennaeth adborth gan gleifion am effaith rhoi analgesia.</li> <li>• Cafodd y staff eu diweddarau drwy sgrymiau a chyfarfodydd ward.</li> </ul>	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau
<p>Ni welsom unrhyw enghreifftiau o'r staff yn annog y cleifion i olchi eu dwylo cyn prydau ac ar ôl prydau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn annog y cleifion i olchi eu dwylo cyn prydau ac ar ôl prydau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd y staff eu hatgoffa y dylid helpu'r cleifion i olchi eu dwylo cyn prydau ac ar ôl prydau.</li> <li>• Sicrhau y rhoddir cymorth i gleifion sy'n gaeth i'r gwely.</li> <li>• Caiff weips dwylo eu cynnwys ar</li> </ul>	Rheolwr y ward	Wedi'i gwblhau

		hambyrddau'r cleifion (ac maent ar gael rhwng prydau).		
Roedd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd yn dangos cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o ychydig dros 72%.	Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ward Brynheulog wedi gwella lefelau cydymffurfiaeth o gymharu â blynyddoedd blaenorol - mae angen monitro'r sefyllfa a rhoi sicrwydd y ceir gwelliant parhaus.</li> <li>Caiff y staff eu hatgoffa o'r gofynion o ran cyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â hyfforddiant statudol a gorfodol.</li> <li>Caiff amser gwarchodedig ei gynnig lle y bo'n bosibl.</li> <li>Anelu at gyflawni cydymffurfiaeth o 85% erbyn mis Mehefin 2024.</li> </ul>	Rheolwr y Ward/ Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol/ Pennaeth Nyrso	Mehefin 2024

<p>Roedd rheolwr y ward a dirprwy reolwyr y ward wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, nid oedd aelodau eraill o'r staff wedi cael unrhyw hyfforddiant o'r fath.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai pob aelod o'r staff fod yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r gofynion y disgwylir iddyn nhw a BIAP eu cyflawni fel rhan o'r broses hon.</li> <li>• Mae hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd ar gael ar y Cofnodion Staff Electronig - disgwylir i'r tîm gyrraedd lefel cydymffurfiaeth o 85% erbyn mis Mai 2024.</li> <li>• Caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei chyflwyno i'r staff yn ystod sgrymiau a chyfarfodydd er mwyn sicrhau y daw'r iaith yn gyfarwydd iddynt ac i godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd.</li> </ul>	<p>Rheolwr y Ward/ Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol/ Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Mai 2024</p>
---	--	---	--	-----------------

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd eu harddangos ar y ward i'r cleifion a'r staff.</li> <li>• Hyfforddiant Datix er mwyn sicrhau y caiff y lefel niwed gywir ei chofnodi.</li> <li>• Cynhelir adolygiad dyddiol o Datix er mwyn sicrhau y caiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei rhoi ar waith pan gaiff ei nodi.</li> </ul>		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** Linzi Shone

**Swydd:** Pennaeth Nyrsio Proffesiynol

**Dyddiad:** 15/01/2024